



# Pecyn Pontio Hanes

## Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso mawr atom – rydym yn edrych ymlaen i weithio hefo chi ac yn falch iawn eich bod wedi dewis Hanes fel pwnc safon uwch. Byddwch yn cael cyfle i ddatblygu eich dealltwriaeth o hanes yr ugeinfed ganrif mewn mwy o ddyfnder, a byddwn yn dechrau ymweld â chynnodau hanesyddol newydd. Mi fyddwn yn trafod a ffurfio barn ar achosion tymor byr a hirdymor y Rhyfel Byd Cyntaf, gan bwysu a mesur maint gwahanol argyfyngau a rol gwledydd unigol. Byddwn yn dysgu am y Chwyldro Comiwnyddol yn Rwsia, a thwf ffasiogaeth yn yr Almaen a'r Eidal. Byddwn hefyd yn cael cyfle i drafod Ewrop ol-ryfel. Hefyd byddwch yn datblygu eich sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth astudio gwahanol ffynonellau hanesyddol o gyfnod y Tuduriaid, a dehongliadau gan haneswyr am effaith y Tuduriaid ar grefydd ac ar Gymru.

**Uned 1 (UG):** EWROP MEWN OES O WRTHDARO A CHYDWEITHREDU tua 1890-1991

**Uned 2 (UG):** Rhan 1: PROBLEMAU, BYGYTHIADAU A SIALENSIAU tua 1529-1553

## Gwaith Cychwynnol

### Tasg 1

<https://spartacus-educational.com/RussiaIssues.htm>

Lluniwch A-Z o eirfa ar gyfer y Chwyldro Comiwnyddol yn Rwsia i baratoi ar gyfer uned 1.

e.e

**A** - Alexander II – Daeth yn Tsar yn y flwyddyn 1855 ...

**B** - Bosieficiaid

### Tasg 2

<https://www.mrallsophistory.com/revision/category/a-level-and-ib-history-revision/european-diplomacy-before-the-first-world-war>

Gwrandewch ar y podcastiau, a gwyliwch y clipiau. Ceisiwch ymgyfarwyddo eich hun hefo sefyllfa Ewrop cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Esboniwch pam fod y system cyngreirio wedi arwain at ryfel byd, yn hytrach na gwrthdaro rhwng ambell wlad yn unig.

### Tasg 3

Gwyliwch y gyfres 'Wolf Hall' ar youtube / amazon

Pa mor ddylanwadol oedd Thomas Cromwell yn eich barn chi?

## Gosod gwaith ymchwil

- Pwy oedd Harri VII a sut ddaeth yn frenin?
- Pryd ddaeth Harri VIII yn frenin, ag o dan ba amgylchiadau?
- Pwy oedd gwraig gyntaf Harri VIII? Pam wnaeth o ei phriodi?
- Darlennwch am y Chwyldro Protestanaidd
- Beth oedd y Deddfau Uno?
- Ymchwiliwch i hanes plant Harri VIII – Mari 1, Elizabeth 1 a Edward VI

## Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

### Gwefan adnoddau CBAC

<https://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceByArgs.aspx?subId=17&lvlId=1>

**Gwerslyfr - Hanes yr Ewrop Fodern 1890-1990** - Alan Farmer  
ISBN - 9781856448758

### Ffuglen -

**Nofelau Philippa Gregory** – Ee The Other Boleyn Girl

<https://www.philippagregory.com/novels-reading-order>

**Wolf Hall** - Hilary Mantel

## Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Byddwn yn sicr yn datblygu eich sgiliau ysgrifennu yn estynedig – rydych wedi arfer ysgrifennu traethodau yn pwysu a mesur gwahanol ddadleuon – byddwch yn datblygu eich sgiliau mynegi barn wrth drafod dadleuon.

Bydd llawer o werthuso beirniadol wrth edrych ar ffynonellau gwreiddiol o gyfnod y Tuduriaid ee llythyrau, cofnodion llys. Byddwn yn cwestiynu gwaith sawl hanesydd dadleuol sydd wedi ysgrifennu am gyfnod y Tuduriaid. Cyfle gwych i chi barhau i ddatblygu eich sgiliau gwerthuso a dadansoddi.

